# Archwilio Cefndir (Recriwtio Staff)

Cyfrinachol

**Caiff y ffurflen hon ei gwahanu oddi wrth weddill eich ffurflen gais ac ni chaiff ei hystyried wrth lunio'r rhestr fer.**

Mae'r Amgueddfa'n archwilio cefndir pob ymgeisydd llwyddiannus er diogelwch. Llenwch bob adran o'r ffurflen hon mewn llythrennau bras wedyn llofnodwch y datganiad isod a nodi'r dyddiad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfenw** | | **Enw(au) cyntaf** | |
| **Cyfenw adeg geni (os yw'n wahanol)** | | **Rhyw** **(G neu B)** | |
| **Dyddiad geni (DD/MM/BB)** | | **Lleoliad geni** | |
| **Cenedl bresennol** | | **Cenedl adeg eich geni (os yw'n wahanol)** | |
| **Cyfeiriad cartref** | **Côd post** | | |
| **Swydd bresennol** | | | |
| **Swydd yr ymgeisiwyd amdani** (NODER. Mae swyddi sy'n cynnwys cysylltiad â phlant/oedolion sy'n agored i niwed wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Gweler isod). | | | |

**Er mwyn ein helpu i fonitro ein polisi hysbysebu, a fyddech cystal â nodi ble clywsoch chi am y swydd hon i ddechrau** e.e. yn y wasg neu ffynhonnell arall, e.e. gwefan Amgueddfa Cymru.

________________________________________________________________

1. Ydych chi erioed wedi eich cael yn euog o drosedd (ac eithrio troseddau parcio), naill ai mewn llys yn y DU, llys tramor neu lys milwrol, sydd heb ddarfod o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974? ☐ Ydw ☐ Nac ydw
2. Ydych chi'n rhydd ar brawf, wedi'ch rhyddhau yn amodol neu wedi'ch ymrwymo gan lys i gadw'r heddwch ar ôl cael eich cyhuddo o unrhyw drosedd? ☐ Ydw ☐ Nac ydw
3. Oes unrhyw gyhuddiad wedi ei ddwyn yn eich erbyn nad yw wedi ei benderfynu eto? ☐ Oes ☐ Nac oes
4. A gawsoch rybudd swyddogol gan yr heddlu ar unrhyw adeg yn ystod y 5 ☐ Do ☐ Naddo

mlynedd diwethaf?

5 Ydych chi wedi eich cael yn euog o drosedd ddisgybladwy gyda chyflogwr blaenorol, neu a ydych wedi cael rhybudd neu gael eich diswyddo o ganlyniad i'ch ymddygiad, eich perfformiad neu eich cofnod presenoldeb? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi wedi rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch y manylion llawn isod gan gynnwys dyddiadau a lleoliadau unrhyw wrandawiadau a natur unrhyw droseddau.

Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974

Mae swyddi sy'n cynnwys cysylltiad â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Yn ogystal â disgwyl i'r holl staff ddatgan troseddau a dedfrydau sy'n gyfredol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i staff sy'n ymgeisio am swyddi sy'n cynnwys cysylltiad â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed ddatgan gwybodaeth sy'n berthnasol i unrhyw ddedfryd, rhybudd swyddogol, cerydd neu rybudd terfynol sydd wedi darfod. Nid oes hawl gan ymgeiswyr gelu'r wybodaeth hon, a dylid datgan y manylion isod.

Pob swydd:

Rhowch fanylion unrhyw drosedd, dedfryd, rhybudd swyddogol, cerydd neu rybudd terfynol cyfredol.

**Swyddi sy'n cynnwys cysylltiad â phlant/oedolion sy'n agored i niwed (gweler y disgrifiad swydd):**
Rhowch fanylion unrhyw ddedfryd, rhybudd swyddogol, cerydd neu rybudd terfynol sydd wedi darfod. Noder y bydd yn rhaid i ymgeiswyr llwyddianus i'r swyddi hyn ddarparu Tystysgrif gan yr Awdurdod Datgelu Annibynnol (ISA) a/neu Ddatgeliad Manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

# Monitro Cydraddoldeb

**Cyfrinachol**

**Bydd y ffurflen hon yn cael ei gwahanu oddi wrth weddill eich ffurflen gais ac ni fydd yn cael ei hystyried wrth lunio rhestr fer.**

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl bolisïau ac arferion cyflogaeth. Ein nod yw sicrhau bod pob gweithiwr, pob darpar-weithiwr ac unrhyw unigolyn sy’n dod i gysylltiad ag Amgueddfa Cymru’n cael ei drin yn gydradd, waeth beth fo’i ryw, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, oed, hil, tarddiad ethnig/cenedlaethol, lliw, anabledd, crefydd neu gred a ph’run ai a yw’n aelod o Undeb Llafur ai peidio. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, byddwn yn monitro ac yn adolygu ein harferion cyflogaeth yn barhaus, a gofynnir i bob ymgeisydd lenwi’r manylion isod. Defnyddir y wybodaeth i fonitro’r polisi yn unig, a bydd y ffurflen yn cael ei thynnu o’ch ffurflen gais, a’i thorri’n garpiau ar ôl ei defnyddio. Mae’r wybodaeth a roddir yn gyfrinachol, ac ni fydd yn cael ei rhannu â’r rhai sy’n llunio’r rhestr fer. Mae Amgueddfa Cymru’n cydymffurfio â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998.

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Teitl swydd y ceisiwyd amdani** |
| **Rhyw** ☐ benyw ☐ gwryw | **Dyddiad geni** |
| | **Lleoliad geni** |
| **Cenedligrwydd** | A oes unrhyw gyfyngiadau ar eich trwydded waith? ☐ Oes ☐ Nac oes<br><br>Os oes, eglurwch y sefyllfa os gwelwch yn dda:<br>……………………………………………………<br>……………………………………………………<br>……………………………………………………<br><br>Os cewch eich penodi, fe fydd yn ofynnol i chi ddangos prawf o’ch hawl i weithio yn y DU. |

| **Cred grefyddol**<br>Nodwch eich crefydd neu gred | **Statws priodasol**<br>Nodwch |
|---|---|
| ☐ Bwdhydd<br>☐ Cristion<br>☐ Hindŵ<br>☐ Iddew<br>☐ Mwslim<br>☐ Sikh<br>☐ Arall, rhowch ddisgrifiad: …………………………………<br>☐ Digrefydd | ☐ Wedi ysgaru<br>☐ Priod/Partneriaeth Sifil<br>☐ Sengl<br>☐ Gweddw<br><br>**Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>Nodwch eich cyfeiriadedd<br>☐ Deurywiol<br>☐ Hoyw/Lesbiaidd<br>☐ Heterorywiol<br>☐ Arall, rhowch y manylion:……………………………….. |

Tarddiad ethnig
Dewiswch un adran o A-E a thicio'r blwch priodol i ddynodi eich cefndir diwylliannol

| **A : Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | **B: Du neu Du Prydeinig** | **C : Tsieineaidd neu unrhyw Grŵp Ethnig arall** | **D : Cymysg** | **E : Gwyn** |
|---|---|---|---|---|
| ☐ Bangladeshaidd<br>☐ Indiaidd<br>☐ Siapaneaidd<br>☐ Pacistanaidd<br>☐ Unrhyw gefndir arall Asiaidd. Rhowch ddisgrifiad: ……………<br>……………<br>……………<br>…………… | ☐ Affricanaidd<br>☐ Caribïaidd<br>☐ Somali<br>☐ Unrhyw gefndir arall Du. Rhowch ddisgrifiad: …………<br>…………<br>…………<br>………… | ☐ Tsieineaidd<br>☐ Ffilipino<br>☐ Unrhyw gefndir arall. Rhowch ddisgrifiad:<br>……………<br>……………<br>……………<br>…………… | ☐ Gwyn ac Asiaidd<br>☐ Gwyn a Du Affricanaidd<br>☐ Gwyn a Du Caribïaidd<br>☐ Unrhyw gefndir arall Cymysg. Rhowch ddisgrifiad…<br>……………<br>……………<br>……………<br>…………… | ☐ Albanaidd<br>☐ Cymreig<br>☐ Gwyddelig<br>☐ Prydeinig<br>☐ Pwylaidd<br>☐ Romani/Sipsi<br>☐ Seisnig<br>☐ Teithiwr<br>☐ Unrhyw gefndir arall gwyn. Rhowch ddisgrifiad:<br>……………<br>……………<br>……………<br>…………… |

**Anabledd**

Oes gennych chi unrhyw un o'r isod?

☐ Anabledd Dysgu
(e.e. dyslecsia, dyspracsia)

☐ Salwch/afiechyd tymor hir
(e.e. asthma, canser, diabetes, epilepsi, HIV, sglerosis ymledol)

☐ Nam synhwyraidd
(e.e. Dall, Byddar, glawcoma, nam ar y clyw, tinitws, nam ar y golwg)

☐ Anhwylder iechyd meddwl
(e.e. anorecsia, iselder, sgitsoffrenia)

☐ Nam corfforol
(e.e. trychiad, defnyddiwr cadair olwyn, medruswydd corfforol)

☐ Nam gwybyddol
(e.e. Awtistiaeth, Syndrom Asperger, anaf i'r pen)

☐ Arall (e.e anffurfiad) – (rhowch fanylion os dymunwch)
……………………………………………………………………………………

Yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, mae person yn anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith anffafriol sylweddol a thymor hir (h.y. wedi para neu y disgwylir iddo bara o leiaf 12 mis) ar allu person i gyflawni eu gweithgareddau pob dydd.

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl yn ôl y diffiniad uchod?

☐ Ydw ☐ Nac ydw (rhowch ddisgrifiad os dymunwch)
___________________________________________

Mae Amgueddfa Cymru'n cydnabod gwerth a chyfraniad gweithwyr cyflogedig sy'n anabl. Os yw eich anabledd yn golygu bod yn rhaid inni wneud addasiadau er mwyn i chi gymryd rhan yn ein prosesau dethol neu i gyflawni'ch gwaith, a fyddech cystal â'u trafod gyda'r Adran Adnoddau Dynol . Gallai addasiadau gynnwys darparu dolen sain, offer TG arbenigol neu drefniadau gwaith amgen.

Mae Amgueddfa Cymru'n ymrwymo i gynnig cyfle cyfartal wrth recriwtio a datblygu gyrfa i bobl anabl. Mae croeso i bobl ag anableddau gyflwyno ceisiadau. Rydym yn gwarantu y byddwn yn cyfweld pobl ag anableddau sy'n cyfateb i ofynion y swydd, fel y cawsant eu nodi yn y swydd ddisgrifiad, a byddem yn sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael yn ôl y gofyn.

**Ticiwch y blwch yma os ydych yn ystyried eich bod yn gymwys i'n Polisi Cyfweliad Gwarantedig** ☐

Diolch yn fawr am ddarparu'r wybodaeth.